Electricity Distribution

nationalgrid

Croeso

Croeso i'n digwyddiad ymgynghori cyhoeddus. Rydym yma i roi gwybodaeth i chi am ein cais cynllunio drafft ar gyfer Cysylltiad Grid Ogwr Uchaf. Rydym hefyd yn awyddus i sgwrsio â chi am y cynigion ac i drafod unrhyw gwestiynau a phryderon a allai fod gennych.

Cymerwch ychydig o amser i fyfyrio ar y cynigion a llenwch ffurflen adborth pan fyddwch chi'n barod. Gallwch wneud hynny ar-lein neu ar bapur. Gofynnwch i un o'n tîm am gopi, ynghyd ag amlen rhadbost, neu gallwn eich cyfeirio at y fersiwn ddigidol ar dudalen we ein prosiect.

Ein cynnig cysylltiad grid yw llinell 66kv yn rhedeg am tua 9 km (5.5 milltir), gyda 4.1km (2.5 milltir) uwchben, a 4.9km (3 milltir) o dan y ddaear, wedi'i lleoli yng Nghymoedd Ogwr Uchaf, Garw, a Llynfi ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot. Byddai'r llinell yn cysylltu Fferm Wynt Ogwr Uchaf, sydd eisoes wedi cael caniatâd, â rhwydwaith Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol.

Welcome

Welcome to our public consultation event. We're here to provide you with information on our draft planning application for Upper Ogmore Grid Connection. We're also keen to chat with you about the proposals and to talk through any questions and concerns you may have.

Please take some time to reflect on the proposals and fill in a feedback form when you're ready. You can do so online or on paper. Just ask one of our team for a copy, along with a freepost envelope, or we can direct you to the digital version on our project webpage.

Our grid connection proposal is for a 66kv line running for around 9 km (5.5 miles), with 4.1km (2.5 miles) overhead, and 4.9km (3 miles) underground, located in the Upper Ogmore, Garw, and Llynfi Valleys of Bridgend and Neath Port Talbot. The line would connect the already-consented Upper Ogmore Wind Farm to the National Grid Electricity Distribution network.

Electricity Distribution

nationalgrid

Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol (NGED)

Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol yw gweithredwr dosbarthu mwyaf y DU gyda dros 20 miliwn o gwsmeriaid ledled De Cymru, Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr.

Yn Ne Cymru rydym yn gweithredu tua 36,000km o rwydwaith, gan wasanaethu 2 filiwn o gwsmeriaid a chyda dros 1,000 o weithwyr.

Rydym yn buddsoddi £1.2 biliwn rhwng 2023 a 2028 ac yn edrych i gysylltu 1.8 Gigawat o gapasiti gwynt yn Ne Cymru.

Mae'r ffordd rydyn ni'n defnyddio'r rhwydwaith yn newid yn gyflym, gyda'r galw am drydan i ddyblu erbyn 2050. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unig, rydym wedi gweld cynnydd o 900% mewn ceisiadau am gysylltiad.

Rydym yn buddsoddi mwy i gynnal, atgyfnerthu ac uwchraddio'r rhwydwaith dosbarthu fel y gallwn gysylltu'r cynnydd cyflymach mewn technolegau carbon isel rydym yn ei weld.

National Grid Electricity Distribution (NGED)

National Grid Electricity Distribution is the UK's largest distribution operator with over 20 million customers across South Wales, the Midlands and the South West.

In South Wales we operate around 36,000km of network, serving 2 million customers and with over 1,000 employees.

We're investing £1.2 billion between 2023 and 2028 and are looking to connect 1.8 Gigawatts of wind capacity in South Wales.

The way we use the network is changing rapidly, with electricity demand set to double by 2050. In the last five years alone, we have seen a 900% increase in connection requests.

We're investing more to maintain, reinforce and upgrade the distribution network so we can connect the exponential increase in low carbon technologies we are seeing.

Electricity Distribution

nationalgrid

Y broses gynllunio

Mae Cysylltiad Grid Ogwr Uchaf yn bodloni'r meini prawf i gael ei ddosbarthu fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

Mae'r math hwn o brosiect yn gofyn am fath arbennig o gais cynllunio a gyflwynir i Benderfyniadau Cynllunio Amgylchedd Cymru (PEDW), rhan o Lywodraeth Cymru, ac a gymeradwyir ganddo.

Bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) yn darparu adroddiad effaith leol gyda'u barn ar y cais, ond ni fyddant yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.

Y camau nesaf

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ein hymgynghoriad statudol ar y cais cynllunio drafft ar gyfer Cysylltiad Grid Ogwr Uchaf. Daw ein hymgynghoriad i ben ar 5 Ionawr 2026. Rydym yn rhagweld cyflwyno'r cais ddechrau 2026.

Gallwch weld y cais cynllunio drafft llawn ar ein gwefan www.nationalgrid.co.uk/upper-ogmore

The planning process

The Upper Ogmore Grid Connection meets the criteria to be classified as a Development of National Significance (DNS).

This type of project requires a special type of planning application that is submitted to and approved by Planning Environment Decisions Wales (PEDW), a part of the Welsh Government.

The Local Planning Authorities (Bridgend County Borough Council and Neath Port Talbot County Borough Council) will provide a local impact report with their opinion on the application, but they will not be responsible for making the final decision.

Next steps

We are currently running our statutory consultation on the draft planning application for the Upper Ogmore Grid Connection. Our consultation closes on 5 January 2026. We're anticipating submitting the application in Early 2026.

You can view the full draft planning application on our website www.nationalgrid.co.uk/upper-ogmore

Mehefin a Gorffennaf 2025
Ymgynghoriad anffurfiol

June & July 2025
Informal consultation

Haf 2025
Cwblhau Cais Cynllunio Drafft

Summer 2025
Finalisation of draft planning application

12 Tachwedd 2025 - 5 Ionawr 2026
Ymgynghoriad Statudol ar y Cais Cynllunio drafft

12 November 2025 - 5 January 2026
Statutory Consultation on the draft Planning Application

Dechrau 2026
Cyflwyno cais gan gynnwys adroddiad Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio a Datganiad Amgylcheddol

Early 2026
Application submission including Pre-Application Consultation report & Environmental Statement

Haf 2026
Archwiliad Cais Disgwyliedig gan PEDW

Summer 2026
Anticipated Application examination by PEDW

Gaeaf 2026
Penderfyniad Disgwyliedig ar y Cais

Winter 2026
Anticipated Application determination

Electricity Distribution

nationalgrid

Fferm Wynt Ogwr Uchaf

Cymeradwywyd Medi 2022

Cynhyrchu hyd at 25MW o ynni

Upper Ogmore Wind Farm

Approved September 2022

Generating up to 25MW of energy



Mae NGED yn gyfrifol am gysylltu'r fferm wynt â'r grid a galluogi allforio'r pŵer a gynhyrchir fel y gellir ei ddefnyddio gan gartrefi a busnesau. Nawr rydym yn ymgynghori ar ein cynlluniau i'w gysylltu â'r rhwydwaith grid ehangach.

Am ragor o wybodaeth ar y fferm wynt, ewch i wefan y prosiect:
www.upperogmore-windfarm.co.uk

NGED is responsible for connecting the wind farm to the grid and enabling the export of the power generated so it can be used by homes and businesses. Now we're consulting on our plans to link it to the wider grid network.

For further information on the wind farm, please go to the project website:
www.upperogmore-windfarm.co.uk

Electricity Distribution

nationalgrid

Cynigion cysylltiad grid

Grid connection proposals

9km (5.5 milltir)
4.1km (2.5 milltir) uwchben a 4.9km (3 milltir) tan ddaear

9km (5.5 miles)
4.1km (2.5 miles) overhead and 4.9km (3 miles) underground

66kv

66kv

Polion H pren hyd at 15m o uchder

Wooden H poles up to 15m in height



Bydd y llwybr yn dechrau ac yn gorffen yn yr ardal a gwmpesir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a bydd rhannau hefyd yn mynd trwy ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot neu'n weladwy o'r ardal honno.

- Mae'r llwybr yn dechrau i'r gorllewin o'r A4063 ger Caerau, fel Llinell Uwchben (OHL) am oddeutu 1.1km (hanner milltir).
- Wrth i'r llwybr gyrraedd Caerau, mae'r llwybr yn trawsnewid yn Gebl Tanddaearol (UGC) gan ddilyn y rhwydwaith priffyrdd presennol am tua 1.7km (1 filltir) i'r gogledd.
- Ychydig ar ôl Is-orsaf Caerau, mae'r llinell yn dychwelyd i'r llinell uwchben am tua 3km (1.9 milltir) i'r dwyrain.
- I'r gorllewin o Glawdd Mawr, mae'r llwybr yn trawsnewid yn ôl i UGC ac yn parhau tua'r dwyrain tuag at yr is-orsaf yn fferm wynt Ogwr Uchaf.

Cynigir y cysylltiad â'r rhwydwaith grid presennol mewn is-orsaf bresennol yn y Pîl, tua 15km (9 milltir) o'r safle. I gyrraedd yr is-orsaf hon, byddai cysylltiad grid arfaethedig Ogwr Uchaf yn defnyddio darn presennol o beilonau ger coed Craig Yr Aber a'r Cysylltiad Grid Foel Trawsnant arfaethedig gan Pennant Walters. (DNS CAS-02505-N3T6M4).

The route will start and finish in the area covered by Bridgend County Borough Council, with sections also passing through or being visible from Neath Port Talbot County Borough Council.

- The route begins to the west of the A4063 near Caerau, as an Overhead Line (OHL) for approximately 1.1km (half a mile).
- As the route reaches Caerau, the route then transitions into Underground Cable (UGC) following the existing highway network for approximately 1.7km (1 mile) to the north.
- Just after the Caerau Substation, the line transitions back to OHL for approximately 3km (1.9 miles) to the east.
- To the west of Clawdd Mawr Dyke, the route transitions back to UGC and continues east towards the substation at the Upper Ogmore wind farm.

The connection to the existing grid network is proposed at an existing substation in Pyle, approximately 15km (9 miles) from the site. To get to this substation the proposed Upper Ogmore grid connection would use an existing stretch of pylons near the Craig Yr Aber woods and the proposed Foel Trawsnant Grid Connection by Pennant Walters (DNS CAS-02505-N3T6M4).

Electricity Distribution

nationalgrid

Diweddariadau ynghylch y Cynnig

Fel y gwyddoch efallai eisoes, cynhaliom ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol ar y cynigion hyn yn yr haf. Ers ein rownd ddiwethaf o ymgysylltu, rydym wedi gwneud newidiadau i linell y grid. Mae'r rhain wedi'u llywio gan arolygon parhaus ac ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

1. Mae'r newid o geblau tanddaearol i linellau uwchben wedi'i symud ychydig i'r dwyrain o is-orsaf Caerau, yn hytrach nag i'r gogledd.
2. Mae'r newid o linellau uwchben i geblau tanddaearol wedi'i symud i ochr orllewinol Clawdd Mawr ger Mynydd Caerau, gyda'r llinell wedi'i thanddaearu trwy draciau presennol ar gyfer Parc Ynni Adnewyddadwy Llynfi Afan.
3. Ar ddiwedd y llinell, byddai'r llwybr yn defnyddio aliniad newydd sy'n dilyn llwybrau i'w hadeiladu fel rhan o Fferm Wynt Ogwr Uchaf; byddai hyn yn cynnwys darn byr trwy dir comin Mynydd Llangeinor.

Proposal Updates

As you may already be aware, we undertook an initial informal consultation on these proposals in the summer. Since our last round of engagement, we have made changes to the grid line. These have been informed by ongoing surveys, and responses to the consultation.

The following changes have been made:

1. The transition from underground cables to overhead lines has been moved east of Caerau, rather than to the north.
2. The transition from overhead lines to underground cables has been moved to the western side of the Clawdd Mawr Dyke near Mynydd Caerau Substation, with the line undergrounded through existing tracks for the Llynfi Afan Renewable Energy Park.
3. At the end of the line, the route would use a new alignment that follows paths to be built as a part of the Upper Ogmore Wind Farm, this would include a short section through the Mynydd Llangeinor common.

- Aliniad tanddaearol newydd
- Aliniad newydd uwchddaearol
- Hen aliniad tanddaearol
- Hen aliniad uwchddaearol
- Fferm Wynt Ogwr Uchaf

- New underground alignment
- New overground alignment
- Old underground alignment
- Old overground alignment
- Upper Ogmore Wind Farm



Yr amgylchedd

Fel rhan o'n cais, rydym wedi paratoi Datganiad Amgylcheddol manwl sy'n archwilio amrywiol effeithiau o'r cynllun a sut y gellid lliniaru'r rhain.
Ar wefan yr ymgynghoriad gallwch weld y Datganiad Amgylcheddol llawn (ochr yn ochr â'r cais cynllunio llawn), yn ogystal â'r crynodeb annhechnegol. Dyma grynodeb o'n canfyddiadau ar Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol.

Tirwedd

- Byddai ein llwybr yn rhedeg ar draws tir sydd wedi'i ddosbarthu ar hyn o bryd fel Gradd 4 a 5 (tir amaethyddol o ansawdd gwael), gyda rhai rhannau o dir trefol a thir anamaethyddol.
- Rydym wedi dylunio'r cynigion i gyfyngu ar effeithiau ar asedau lleol a nodweddion tirwedd fel coed.
- Mae'r defnydd o bolion H pren yn gydnaws â rhwydwaith tebyg sydd eisoes yn yr ardal a bydd yn lleihau'r effeithiau gweledol ar y dirwedd gyfagos.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- Mae ein trafodaethau gyda Cadw wedi nodi Clawdd Mawr fel ased hanesyddol, gyda'r cynnig cychwynnol yn awgrymu croesi gyda llinellau uwchben.
- O ganlyniad i ymgynghoriad pellach rydym wedi newid y llwybr i roi ceblau tanddaearol trwy drac presennol. Fydd hyn yn lleihau effeithiau gweledol a newidiadau i leoliad yr ased hanesyddol hwn.
- Mae'r llwybr arfaethedig bellach yn rhedeg ceblau tanddaearol trwy drac presennol yn agos at y clawdd. O ganlyniad byddwn hefyd yn gwneud cais am Ganiatâd Heneb Gofrestredig.

The environment

As a part of our application, we have prepared a detailed Environmental Statement exploring various impacts from the scheme and how these could be mitigated. On the consultation website you can view the full Environmental Statement (alongside the full planning application), as well as the non-technical summary. Here is a summary of our findings on Landscape and Historic Environment.

Landscape

- Our route would run across land that is currently classified as Grade 4 and 5 (poor quality agricultural land), with some sections of urban land and non-agricultural land.
- We have designed the proposals to limit impacts on local assets and landscape features such as trees.
- The use of wooden H poles is in keeping with similar network already in the area and will lessen the visual impacts on the surrounding landscape.

Historic Environment

- Our discussions with Cadw have identified the Clawdd Mawr dyke as an historical asset, with the initial proposal suggesting an overhead crossing.
- As a result of further consultation we have altered the route to put underground cables through an existing track. This will reduce visual impacts and changes to the setting of this historical asset.
- The proposed route now runs underground cables through an existing track. Therefore, we will also be applying for Scheduled Monument Consent.

Electricity Distribution

nationalgrid

Yr amgylchedd

Traffig

- Byddai'r llwybr trafnidiaeth arfaethedig yn arwain at effeithiau traffig ychwanegol lleiaf posibl ar y gymuned leol.
- Gweler y panel effeithiau lleol nesaf am effeithiau gwaith ffordd.

Ecoleg

- Ni fydd unrhyw golled net o gynefinoedd yn ystod adeiladu'r llwybr.
- Rydym wedi cynnal arolygon yn edrych ar yr effeithiau posibl y gallai'r prosiect eu cael. Mae'r rhain wedi cynnwys Madfallod Cribog Mawr, Ystlumod, Llygod y Dŵr, Ysgyfarnogod a rhywogaethau o wyfynod a gloÿnnod byw sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn lleol.
- Byddwn yn cymryd camau i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar fywyd gwyllt

Adareg

- Rydym wedi cynnal Arolygon Adar manwl ar hyd y llwybr a pharth byffer o'i gwmpas. Mae'r arolygon wedi cynnwys adar ysglyfaethus sy'n bridio, mannau gwylio, troellwyr nos, a byddwn yn cynnal arolygon clwydo adar ysglyfaethus yn y gaeaf rhwng nawr a mis Chwefror 2026.
- Byddai'r gwaith adeiladu arfaethedig o'r llinell wedi'i drefnu i ddigwydd y tu allan i'r prif dymor bridio cymaint â phosibl.
- Mae dulliau adeiladu hefyd wedi'u cynllunio i ddigwydd gan ddefnyddio'r holl fesurau angenrheidiol ac ymarferol i leihau'r sŵn, y dirgryniad a'r aflonyddwch gweledol i adar o amgylch y llwybr grid arfaethedig.

Am ragor o wybodaeth am ein canfyddiadau a'n lliniaru gweler y Llyfryn Ymgynghori neu'r wefan **www.nationalgrid.co.uk/upper-ogmore**

The environment

Traffic

- The proposed transport route would result in minimal additional traffic impacts on the local community.
- Please see the next local impacts panel for roadwork impacts.

Ecology

- There will be no net loss of habitats during the construction of the route.
- We've carried out surveys looking at the possible impacts that the project may have. These have included Great Crested Newts, Bats, Water Voles, Hares and nationally and locally important species of moth and butterfly.
- We will be taking measures to mitigate any possible impacts on wildlife

Ornithology

- We've carried out detailed Bird Surveys along the route and a buffer zone around it. The surveys have included breeding raptors, vantage points, nightjars, and we will be carrying out winter raptor roost surveys between now and February 2026.
- The proposed construction of the line would be scheduled to take place outside of the main breeding season as much as possible.
- Construction methods have also been planned to take place using all necessary and practical measures to minimise the noise, vibration, and visual disturbance to birds surrounding the proposed grid route.

For more information on our findings and mitigations please see the Consultation Brochure or website **www.nationalgrid.co.uk/upper-ogmore**

Yr amgylchedd

Fel rhan o'n cais, rydym wedi paratoi Datganiad Amgylcheddol manwl sy'n archwilio gwahanol themâu ein dyluniad a sut y gellid lliniaru'r rhain. Dyma grynodeb o'n canfyddiadau ar Hydroleg, Cloddio Glo ac Amleddau Electromagnetig:

Hydroleg

- Er mwyn cyfyngu ar yr effaith ar hydroleg y safle, byddwn yn sicrhau bod graddiant y tir rydym yn gweithio arno mor fas â phosibl i leihau llif silt i'r lleiafswm.
- Yn ogystal, byddwn yn cynnal monitro ansawdd dŵr yn rheolaidd ac archwiliad gweledol o gyrsiau dŵr ger y gwaith i sicrhau nad oes unrhyw newidiadau yn y dŵr.

Cloddio Glo

- Mae gweithfeydd mwyngloddio dwfn wedi'u cofnodi islaw'r safle ar ddyfnderoedd rhwng 31 a 783 metr (hanner milltir) islaw lefel y ddaear. Ystyrir bod y rhain yn ddigon dwfn fel na fydd unrhyw effeithiau ar y datblygiad arfaethedig.
- Os bydd unrhyw nodweddion nad ydym eisoes wedi'u mapio yn cael eu canfod yn ystod gwaith ar y safle, bydd y rhain yn destun asesiad ac ymchwiliad pellach gan arbenigwyr.

Amleddau Electromagnetig

- Mae pob llinell bŵer ac unrhyw offer sy'n defnyddio trydan yn cynhyrchu Amleddau Electromagnetig (EMF).
- Byddai'r EMFs mwyaf y gellid eu canfod yn uniongyrchol o dan linell uwchddaearol yn cyfateb i deledu cartref, peiriant golchi dillad, neu ficrodon.
- Nid oes unrhyw gysylltiadau profedig rhwng amleddau electromagnetig ac unrhyw effeithiau ar iechyd.

The environment

As a part of our application, we have prepared a detailed Environmental Statement exploring various themes of our design and how these could be mitigated. Here is a summary of our findings on Hydrology, Coal Mining and Electromagnetic Frequencies:

Hydrology

- To limit the impact on the hydrology of the site, we will make sure the gradient of land we're working on is as shallow as possible to minimise silt runoff.
- In addition, we will be undertaking regular water quality monitoring and visual inspection of watercourses near the works to ensure there are no changes in the water.

Coal Mining

- There are deep mine workings recorded below the site at depths of between 31 and 783 meters (half a mile) below ground level. These are considered deep enough that there will be no impacts on the proposed development.
- If any features that we have not already mapped are encountered during site works, these will be subject to further assessment and investigation by specialists.

Electromagnetic Frequencies

- All powerlines and any appliances using electricity produce Electromagnetic Frequencies (EMF).
- The maximum EMFs that could be found directly under an overhead line would be equivalent to a household TV, washing machine, or microwave.
- There are no proven links between electromagnetic frequencies and any health impacts.

Rheoli effeithiau lleol

Bydd rhannau o'r ceblau tanddaearol yn cael eu gosod o dan y briffordd bresennol gan gynnwys ar yr A4063 trwy Gaerau. Ni ragwelir y bydd angen cau unrhyw ffyrdd yn llwyr. Fodd bynnag, mae natur y gwaith yn golygu y bydd effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd.

Byddwn yn cytuno ar fesurau rheoli traffig priodol gyda'r awdurdod priffyrdd lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr). Bydd manylion y gwaith hwn i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu terfynol a disgwylir iddo gymryd hyd at 6 mis i'w gwblhau.

Managing local impacts

Sections of the underground cables will be installed under the existing highway including on the A4063 through Caerau. It is not anticipated that any full road closures will be required. However, the nature of the works mean that there will be impacts on the road network.

We will agree appropriate traffic management measures with the local highway authority (Bridgend County Borough Council). These works will be detailed within the final Construction Traffic Management Plan and are anticipated to take up to 6 months to complete.

Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol

Dim ond polion H pren fyddai'r cynllun hwn yn eu defnyddio ar gyfer y cysylltiad uwchben, heb fod angen adeiladu tyrau dur.

Byddai gosod polion H yn broses syml, a rhagwelir y byddai blociau pren yn cael eu gosod yn y ddaear i ddarparu cefnogaeth strwythurol.

Er bod y llinell wedi'i bwriadu i fod mor syth â phosibl, mae yna bwyntiau lle gall fod angen i'r llinell newid cyfeiriad, er mwyn osgoi nodweddion amgylcheddol, fel coed. Mewn mannau o wyriad, bydd polion ongl yn cael eu defnyddio. Mae'n debyg mai strwythurau polyn H fydd y rhain, gyda chynhalwyr cebl i ddarparu sefydlogrwydd ychwanegol. Isod, cymhariaeth o bolion pren â tŵr dellt dur.

Rydym wedi cynnal asesiad effaith weledol o'r llinell ac ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol.

Gellir gweld delweddiadau ar y wefan fel rhan o'r cais cynllunio drafft.

Landscape and visual impact

This scheme would only use wooden H poles for the overhead connection, with no need for steel towers to be constructed.

The installation of H poles would be a simple process, and it is anticipated that wooden blocks would be placed in the ground to provide structural support.

While the line is intended to be as straight as possible, there are points where the line may need to change direction, to avoid environmental features, such as trees. At points of deviation, angle poles will be used. These are likely to be H-pole structures, with cable stays to provide extra stability. Below, comparison of wooden poles with steel lattice towers.

We have carried out a visual impact assessment of the line and found no significant impacts.

Visualisations can be seen on the website as a part of the draft planning application.



Electricity Distribution

nationalgrid

Dweud eich dweud a chysylltu â ni

Diolch i chi am fynychu ein digwyddiad heddiw.

Dweud eich dweud

Wrth i ni gwblhau ein cais cynllunio, hoffem glywed eich barn a'ch sylwadau ar y cynigion hyn sy'n dod i'r amlwg. Bydd eich barn yn cael ei bwydo i'r broses ddylunio a bydd yn helpu i lunio'r cais cynllunio drafft.

Gallwch roi eich barn drwy lenwi ein ffurflen adborth sydd ar gael:

1. Ar ein gwefan: **nationalgrid.co.uk/upper-ogmore**
2. Ar bapur yn y digwyddiad heddiw, ynghyd ag **amlen rhadbost**

Dychwelwch y ffurflen erbyn diwedd **5 Ionawr 2026** i **Freepost GRASSHOPPER CONSULT** (nid oes angen stamp).

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy unrhyw un o'r canlynol:

Trwy e-bost:
nged.upperogmore@nationalgrid.co.uk

Dros y ffôn:
01656 334319

Trwy'r post:
Freepost GRASSHOPPER CONSULT (nid oes angen stamp)

Have your say & contact us

Thank you for attending our event today.

Have your say

As we finalise our planning application, we'd like to hear your thoughts and opinions on these emerging proposals. Your views will be fed into the design process and will help shape the final planning application.

You can give your views by completing our feedback form which is available:

1. On our website: **nationalgrid.co.uk/upper-ogmore**
2. On paper at today's event, along with a **freepost envelope**

Please return the form by the end of **5 January 2026** to **Freepost GRASSHOPPER CONSULT** (no stamp needed).

You can also contact us through any of the following:

By email:
nged.upperogmore@nationalgrid.co.uk

By phone:
01656 334319

By post:
Freepost GRASSHOPPER CONSULT (no stamp needed)